# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)30-08

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2008
**Amser:**8.30 a.m.
**Lleoliad:**Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Ty
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Ty
Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau
Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kirsty Williams.  Croesawodd Peter Black a oedd yn ei chynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

1.2 Dywedodd Peter Black y byddai'n dirprwyo ar ran Kirsty Williams yn y cyfarfodydd nesaf.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)29-08 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft.  Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd:  Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)29-08(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 18 a 19 Tachwedd 2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)29-08(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf - BC(3)29-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes y Cynulliad ar gyfer 10 Rhagfyr:

Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (45 munud)

Dadl ar Araith y Frenhines (105 munud)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr: Ynghylch Craffu Cyfnod 2 - BC(3)30-08(p4)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, ynghylch craffu cyfnod 2 ar y Mesur.  Dywedodd y cyn-Gadeirydd y byddai'r Mesur wedi elwa o waith craffu Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol.  Hefyd, eglurodd yr anawsterau a oedd wedi codi o ganlyniad i'w swyddogaeth ddeuol fel Cadeirydd y Pwyllgor ac fel y sawl a oedd yn symud gwelliannau a gyflwynwyd yn ei enw.

4.2 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr yn ei gyfarfod ar 8 Ebrill, a chytunwyd y byddai'r Mesur yn symud ymlaen yn uniongyrchol i ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol. Roedd y penderfyniad i beidio â chyfeirio'r Mesur at bwyllgor Cyfnod 1 wedi'i seilio ar ymgais i beidio â dyblygu'r gwaith craffu cyn y broses ddeddfu a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Dysgu. O ystyried hyn, ar 24 Mehefin cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr egwyddor cyffredinol mai Pwyllgor Deddfwriaethol ddylai graffu ar ddeddfwriaeth.

4.3 Yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i sefydlu pum Pwyllgor Deddfwriaethol, bob un â phum Aelod a Chadeirydd na fyddai'n pleidleisio. Dywedodd y Llywydd y byddai'n ysgrifennu at gyn-Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr i ddiolch iddo am ei lythyr ac i gyfleu'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Busnes i wella'r broses o graffu ar Fesurau yng Nghyfnod Pwyllgor.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**